AD CLERUM

Oddi wrth yr Esgob/From the Bishop

Rhagfyr 2018

Annwyl ffrindiau,

Gyda bod trefnu'r Esgobaeth yn AddGLl, bellach ar waith a bod ein hymrwymiad newydd i waith efengylu ac efengyleiddio wedi cychwyn yn ddiweddar gyda digwyddiad "Ymbaratoi a Chomisiynu ar gyfer Efengylu", priodol yw atgoffa'n hunain pa ddiben sydd i'r cyfan oll; a pha adeg well na'r Adfent i bwyso a mesur hyn o gwestiwn? Hanfod ein ffydd Gristionogol yw'r honiad fod Duw, y Drindod Sanctaidd, yn creu, yn cynnal ac yn achub popeth sydd, ac y gwneir y cread hwn yn newydd, ddydd a ddaw, gan ei berffeithio, ei lanhau, a'i ryddhau o afael yr hyn a'i andwyodd. Mae bywyd yr eglwys yn rhagflas o Deyrnas Dduw. Wrth fwrdd yr Arglwydd, dathlwn ein hundod ynddo ef, ac fe'n hanfonir i fyw cariad Duw ac arddangos y cariad hwnnw drwy gyfrwng gweithredoedd, ddydd ar ôl dydd o'n bywydau. Cawn ein hatgoffa gan yr Adfent, y gosodir popeth, ryw ddydd, ym mhresenoldeb realiti Duw, a mai'r hyn yn unig a wreiddiwyd ynddo Ef fydd yn goroesi. Nid rhywbeth i'w ofni mo hyn, ond testun llawenydd a gobaith i ni. Yn Nghrist, cawn ein caru a'n derbyn. Fe'n gelwir i gydweithredu ag Ysbryd Duw, er mwyn i'n bywydau fod yn drwm o ffrwyth yn ei enw. Fe'n gelwir i ddewis, i ddefnyddio ei roddion, yn gadarn ein ffydd yn nheyrnas dragwyddol a disymud Duw, yn hytrach nag yn nghabanau byrhoedlog y byd sydd ohoni, neu ddilyn tueddiadau'r oes.

Cyfnod o obaith dwys yw'r Adfent: gobaith, am fod ein Duw, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yn un y gellir ymddiried ynddo ac y gellir dibynnu arno; dwys, am nad gêm mo hyn. Mae Duw Israel, Duw Abraham, Isaac a Jacob, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yn real. Ni elwir arnom i geisio trefnu'r adloniant Cristionogol ei thema sy'n well a mwy diddorol a mwy grymus nag unrhyw beth arall, a hynny er mwyn temtio pobl i gefnu ar eu chwaraeon neu ar eu gêmau cyfrifiadur. Ni elwir arnom chwaith i geisio argyhoeddi pobl am wirionedd ein barn grefyddol benodol, er mwyn i ni deimlo'n well o gael rhai o'r un anian â ni o'n hamgylch. Mae i ni alwad amgenach, sef bod yn gymunedau o bobl â nam arnom, yn agored i gariad iachaol Duw, er mwyn i ni allu byw y cariad gonest, effro ac iachaol hwnnw ynghanol "ffurf bresennol y byd hwn sy'n darfod amdano." (I Cor 7:31).

Mae hon yn adeg anodd o ran ein cenedl ni, ac fe'n gelwir i weddïo ac atgoffa pawb y deuwn i gysylltiad â hwy yn ddyddiol, fod geirwiredd a chyfiawnder yn gwbl hanfodol mewn cymdeithas ddynol, wâr, ac nad yw Duw yn bleidiol i un unigolyn yn fwy na'r llall.



DIARY DATES

CMD 2019

A reminder that these training days are regarded as a professional commitment for all stipendiary clergy and non- stipendiary clergy are strongly encouraged to attend if they can, so please put these dates in your diary now.

CMD dates are always advertised well in advance in Ad Clerums and on our Diocesan webpage. If you have to give your apologies though, please give these to your Archdeacon and not to the Bishop's PA. Thank you.

CMD Thursday 28th February

10am Trinity St David's Carmarthen

A Quiet Day of Prayer for the Renewal of Christian Life in our Diocese.

Led by Revd Andrew Johnson and Revd Canon Dr Rhiannon Johnson.

CMD Thursday 16th May

10am Trinity St David's Carmarthen

Focus on Education and School Work.

CMD Tuesday 19th November

10am Trinity St David's Carmarthen

Subject TBA.

Archidiaconal Days

Additionally, there are to be three Archidiaconal Days, content and venues to be confirmed in the new year.

Monday 15th July, Tuesday 16th July, Wednesday 17th July.

Appointments

I am pleased to announce the following appointments and hold the clerics in my thoughts and prayers as they prepare for the next stage of their ministries.

REES, Revd D Lynn to is to be licensed as Assistant Curate in the Parish of Betws St Davids w Ammanford on 6 January 2019 at Llandybie Church.

MILNE, Revd Sulin is to be licensed to become LMA Vicar in the United Benefice/LMA/Deanery of Bro Lliedi on 11 November 2018

To be Remembered in our Prayers

At this time of year, we particularly feel for those of our colleagues and friends who are are struggling with ill health and we ask that you hold them all in your prayers.

All were saddened by the news this week that Lynn Davies, one of our ordinands in Pembrokeshire passed away quite suddenly. We pray that she may rest in peace and rise in glory. Please remember her family in your prayers.